OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Man i'r De o Gyffordd Glan-bad, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Ionawr 2024* |
| *Yn dod i rym* | *1 Chwefror 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Man i'r De o Gyffordd Glan-bad, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024, a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Chwefror 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2024 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A470 Trunk Road (South of Upper Boat Junction, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2024

| | |
|---|---|
| *Made* | *26 January 2024* |
| *Coming into force* | *1 February 2024* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A470 Trunk Road (South of Upper Boat Junction, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2024 and this Order comes into force on 1 February 2024.

### Interpretation

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 1 Chwefror 2024 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig.

### Gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

**4.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Ionawr 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

Y darn o’r llain galed sy’n gyfagos i gerbytffordd tua’r gogledd y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 1.12 cilometr i’r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â’r A4054 a’r A468, hyd at ddechrau’r ffordd ymadael tua’r gogledd wrth Gyffordd Glan-bad, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf.

Y darn o gilfan gyfagos i gerbytffordd tua’r gogledd y gefnffordd, a leolir 1.2 cilometr i’r gogledd o ganolbwynt cyffordd yr A470 â’r A4054 a’r A468.

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Cardiff to Llangurig trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 20:00 hours on 1 February 2024 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### Prohibition

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

### Application

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### Duration of this Order

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated 26 January 2024

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

## SCHEDULE

The length of the hard shoulder adjacent to the northbound carriageway of the trunk road that extends from a point 1.12 kilometres north of the centre-point of its junction with the A4054 and A468 to the start of the northbound exit slip road at Upper Boat Junction, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf.

The length of lay-by adjacent to the northbound carriageway of the trunk road, which is located 1.2 kilometres north of the centre-point of the A470/A4054/A468 junction.